

Pecyn cymorth gweithredu drafft ar gyfer cwnsela mewn ysgolion a chymunedau

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru 01970 639950

Eich cyfeiriad:
UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **18 Rhagfyr 2019**:

Tîm Iechyd a Lles mewn Ysgolion
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: Mentalhealth.Schools@llyw.cymru

Cwestiwn 1 – Esboniwrch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid newid y pecyn cwnsela diwygiedig er mwyn helpu i hyrwyddo cysondeb y gwasanaeth cwnsela ledled Cymru a sicrhau bod y ddarpariaeth yr un mor hwylus i bob person ifanc fanteisio arni:

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno bod cynnwys y pecyn cwnsela diwygiedig yn briodol ac yn effeithiol? Os nad ydych, pa newidiadau pellach sydd eu hangen?

Cytuno	☒	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
--------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 3 – Ydych chi o'r farn bod y pecyn cwnsela diwygiedig yn cynnig y lefel iawn o gymorth i ddarparwyr cwnsela a rheolwyr gwasanaethau cwnsela o ran yr arferion gorau wrth ddarparu'r gwasanaeth mewn ysgol ac o fewn cymuned?

Sylwadau ategol

Cytuno.

Cwestiwn 4 – Ar ôl cyhoeddi'r pecyn cwnsela diwygiedig, pa weithgarwch (os o gwbl) (hyfforddiant a/neu weithgarwch codi ymwybyddiaeth ymhlith cynulleidfaoedd penodol, er enghraifft) fydd ei angen?

Sylwadau ategol

Gan ei fod yn faes mor allweddol, a mor sensitif, yn sicr bydd angen i'r gweithlu addysg o fewn ysgolion dderbyn hyfforddiant i sicrhau bod dealltwriaeth o natur y gwasanaeth, sut a phryd i atgyfeirio (gan gynnwys systemau a chyfrifoldebau o fewn yr ysgol), a'r darpariaethau perthnasol ynghylch cyfrinachedd ac ati. Bydd y math hyn o hyfforddiant yn berthnasol i athrawon ac chynorthwyyr dosbarth, yn yr uwchradd, a Chyfnod Allweddol 2/Blwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd. Byddai'n cyd-fynd yn naturiol iawn â'r gwaith sy'n digwydd mewn ysgolion fel rhan o'r dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer diwallu anghenion iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc.

Cwestiwn 5 – Hoffem wybod eich barn am effeithiau'r Pecyn cymorth gweithredu drafft ar gyfer cwnsela mewn ysgolion a chymunedau ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Gwyddom fod y Safonau yn berthnasol yn y cyd-destun hwn. Cymerwn y cyfle i bwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod cwnsela ar gael i blant a phobl ifanc yn yr iaith sydd fwyaf naturiol iddyn nhw, er mwyn iddynt allu teimlo mor gyffyrddus â phosib yn trafod materion sy'n ddwys, yn gymhleth ac yn boenus. Wrth reswm, dylai'r cynnig fod yn un rhagweithiol, ac ni ddylai bod angen i'r plentyn neu berson ifanc orfod ofyn amdano'n benodol.

Cwestiwn 6 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y pecyn cymorth arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

